**EOC-04-01 (min)**

**Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 9fed Mai 2001 |
| **Amser:** | 9.30 a.m. |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau:** | |
| | Edwina Hart (Cadeirydd) | G•yr |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |
| | **Ymgynghorwyr i'r Pwyllgor:** | |
| | Kate Bennett | Comisiwn Cyfle Cyfartal |
| | Mashuq Ally | Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol |
| | Will Bee | Comisiwn Hawliau Anabledd |
| | **Siaradwyr Gwadd:** | |

| | |
|---|---|
| Jane Davidson | Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes |
| Susheela Lourie | Cadeirydd, Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) |
| Steve Bennett | Rheolwr Project, (NWREN) |
| Clair Clerk | Swyddog Datblygu, (NWREN) |
| Darren Johnson | (NWREN) |
| Charlottee Williams | (NWREN) |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Peter Gregory | Pennaeth Gr•p Rheoli Personél a Gwasanaethau Busnes |
| Mike Harper | Pennaeth, Yr Is-adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus |
| Alan Lansdown | Pennaeth, Yr Is-adran Cymorth Disgyblion |
| Phillip Elkin | Cyfreithiwr, SCC |
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| Adrian Green | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan:

Richard Edwards a Christine Gwyther

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad y Cadeirydd**

**Eitem Lafar**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol, yn enwedig y cynrychiolwyr o Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Cymru, Jane Davidson oedd i ymuno â'r cyfarfod i drafod ymateb y Cynulliad i Ymchwiliad McPherson i Lofruddiaeth Stephen Lawrence ac Eleanor Burnham a ymunodd â'r Pwyllgor am y

tro cyntaf. Adroddodd y Cadeirydd ar faterion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol:

- Ymgymerodd y Pwyllgor i ddod â'r TUC, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r Cynulliad ynghyd i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd fel ymateb i Adroddiad y Tasglu Tâl Cyfartal. Roedd cyfarfod yn cael ei gynnal y prynhawn hwnnw a byddai'r Cadeirydd yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor. Yn y cyfarfod nesaf hefyd ceir cyflwyniad gan yr Athro Teresa Rees, Comisiynydd Cyfle Cyfartal Cymru, ar Adroddiad y Tasglu Tâl Cyfartal.
- Yn ystod y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf ar y papur ymgynghorol ar dalu Cadeiryddion Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, adroddodd y Cadeirydd fel y cytunwyd, bod y Clerc wedi paratoi llythyr yn amlinellu barn y Pwyllgor ar y papur ac wedi'i ddosbarthu i'r aelodau roi sylwadau arno. Yr oedd y Cadeirydd wedi derbyn y llythyr hwnnw a chaiff ei ystyried yn yr ymgynghoriad. Hefyd adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi gofyn i'r Athro Rees ymgymryd ag astudiaeth ymchwil fanwl ar yr hyn sy'n cymell pobl i gymryd penodiadau cyhoeddus.
- Fel y cytunwyd, yr oedd y Cadeirydd wedi ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau i gymeradwyo Adroddiad McKenzie iddynt, i Gadeiryddion Pwyllgorau eu cyfeirio at adroddiad Barn yr Ifanc, i'r panel o Gadeiryddion am y broses i bwyllgorau sy'n benthyg swyddogion ac i'r Ysgrifennydd Parhaol annog gwaith pellach ar archwiliadau tâl cyfartal.
- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor eu bod wedi derbyn papur i'w nodi ar integreiddio'r dasg o weithredu'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol â gwaith cydraddoldeb arall yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni fyddai'r Pwyllgor yn clywed fel y cynlluniwyd gan Dîm y Swyddfa Gartref ar y Ddeddf Diwygio Cysylltiadau Hiliol oherwydd bod y person a gafodd ei friffio wedi'i alw i ffwrdd oherwydd clwy'r traed a'r genau.
- Yn y cyfarfod nesaf, byddai'r Pwyllgor yn derbyn y newyddion diweddaraf ar ddatblygu polisi caffael y Cynulliad yn unol â'i oblygiadau cydraddoldeb a bydd y Cwnsler Cyffredinol yn darparu sylwadau pellach ar yr agweddau cyfreithiol. Nododd y Cadeirydd y byddai'n cadeirio ei chyfarfod Gweinidogol cyntaf o amgylch y bwrdd ar gyfle cyfartal cyn bo hir ac y byddai'n hysbysu'r aelodau.
- Ar fater mynediad i orsafoedd pleidleisio i'r anabl, adroddodd y Cadeirydd ei bod wedi derbyn ymateb gan Gwenda Thomas, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i'w llythyr diweddar. Gofynnodd Gwenda tybed a oedd cyfle i ddefnyddio mwy o dechnoleg gwybodaeth wrth oresgyn problemau hygyrchedd a chynigiodd y gallai'r Pwyllgor edrych y tu allan i'r DU am enghreifftiau o arfer dda. Mynegodd y Cadeirydd y farn y gellid cynnwys hyn ym mlaen raglen waith y Pwyllgor a chynigiodd y dylai'r Pwyllgor aros i'r Swyddfa Gartref dderbyn y canllaw ar gyfer Swyddogion Etholiad y disgwylir iddo gynnwys adran ar fynediad i'r anabl.

1.2 Croesawodd Will Bee o'r Comisiwn Hawliau Anabledd unrhyw wybodaeth y gallai'r Pwyllgor ei gasglu ar fynediad i orsafoedd pleidleisio yn arbennig, ar y defnydd o TG a nododd y byddai'r Comisiwn yn monitro'r sefyllfa gyda'r etholiad cyffredinol sydd ar ddod.

1.3 Wrth drafod mynediad i orsafoedd pleidleisio, cododd yr aelodau'r materion canlynol:

- Pryder nad oedd rhai awdurdodau lleol bellach yn defnyddio cabanau symudol oherwydd anawsterau mynediad. Fodd bynnag gallai hyn olygu mai'r dewis arall oedd bod aelodau o'r cyhoedd yn gorfod teithio ymhellach i orsaf bleidleisio sydd ynddo'i hun yn golygu eu bod yn llai hygyrch.
- Cynigiwyd y gallai'r Pwyllgor holi'r Swyddogion Etholiad o ran y darpariaethau mewn perthynas â mynediad i'r anabl. Dylai pobl allu pleidleisio yn hawdd a chyfforddus. Gallai pleidleisiau drwy'r post

fod yn opsiwn ond cafodd 25% o’r pleidleisiau hynny eu difetha yn yr etholiad cyffredinol diwethaf felly roedd angen gwella’r system honno. Awgrymwyd archfarchnadoedd a swyddfeydd post fel lleoliadau a oedd eisoes yn hawdd mynd i mewn iddynt, ond nodwyd hefyd y gallai dynnu masnach oddi wrth siopau eraill os byddai pobl yn mynd i archfarchnadoedd i bleidleisio.

1.4 Nododd y Cadeirydd unwaith y byddai’r wybodaeth wedi’i derbyn gan y Swyddfa Gartref ac ar ôl yr etholiad cyffredinol, y byddai’n fodlon ysgrifennu at yr awdurdodau lleol i nodi enghreifftiau o arfer dda yng Nghymru. Awgrymodd y byddai’r monitro gaiff ei wneud gan y Comisiwn Hawliau Anabledd yn ddefnyddiol, yn enwedig, wrth fwydo i etholiadau’r Cynulliad Cenedlaethol ymhen 2 flynedd. Gofynnodd i’r mater hwn gael ei osod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Eitem 2 ar yr Agenda: Adroddiad Blynyddol Drafft o’r Pwyllgor Cyfle Cyfartal**

**Papur: EOC-04-01(p.1)**

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd i’r pwyllgor ystyried ei adroddiad blynyddol ar drefniant y Cynulliad i hybu cydraddoldeb. Mae Papur 1 yn nodi strwythur arfaethedig yr adroddiad, mae ganddo atodiadau yn cynnwys adroddiad drafft o berfformiad y Cynulliad dros y flwyddyn ddiwethaf ac adroddiad blynyddol drafft ar weithgaredd y Pwyllgor. Bydd corff yr adroddiad gan y Pwyllgor yn cynnwys sylwadau’r Pwyllgor ar berfformiad y Cynulliad. Byddai angen cwblhau’r adroddiad yn y cyfarfod nesaf oherwydd y trefnwyd iddo gael ei drafod yng Nghyfarfod Llawn 5ed Gorffennaf.

2.2 Yn y drafodaeth codwyd y pwyntiau canlynol:

- Cafwyd cytundeb eang gyda chynnwys y papur ond teimlwyd y dylid sôn am benodiadau cyhoeddus yn adroddiad y Cynulliad. Ym mharagraff 3 teimlwyd y dylid cryfhau’r pwynt ar bwysigrwydd hyfforddiant cydraddoldeb oherwydd hyd yma ni roddwyd llawer o hyfforddiant yn y maes hwn.
- Roedd angen trafodaeth ar pam yr ymddengys bod rhai categorïau yn y proffil aeddfedrwydd cydraddoldeb wedi symud ymlaen yn sylweddol pan yr ymddengys bod cynnydd ar eraill yn cymryd llawer mwy o amser. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach ar hyn yn yr adroddiad a gofynnodd am gyflwyniad ar grynhoi’r proffil.
- Cododd yr Aelodau fater tai sy’n addas i blant ag anableddau neu anghenion iechyd arbennig a chytunwyd ystyried hyn ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

2.3 Gan ymateb i gwestiwn y Cadeirydd ar gynnydd ar hyfforddi aelodau, dywedodd Mr Harber y bwriadwyd cysylltu â’r Aelodau sy’n cymryd ymwneud â phenodiadau gyda manylion y trefniadau hyfforddi yn y ddwy wythnos nesaf. Holodd y Cadeirydd am hyfforddiant i staff ac am nodyn ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar ba hyfforddiant penodol gaiff ei roi. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i Atodiadau’r Adroddiad gael eu hail-ddrafftio i wneud pwyntiau a godwyd yn y drafodaeth yn gliriach.

2.4 Nododd Kate Bennett bod y Comisiwn wedi bod yn gweithio gyda Liisa Horelli – ac arbenigwr cydraddoldeb o’r Ffindir oedd yn rhoi cyngor i’r llywodraeth yno ar gyflwyno cyfle cyfartal i’r prif ffrwd. Byddai yng Nghaerdydd i gael cyfarfod â’r swyddogion ar ddiwrnod cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Awgrymodd y Cadeirydd y byddai’n ddefnyddiol os gallai Ms Horelli gwrdd ag aelodau o’r Pwyllgor.

2.5 Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ar sefyllfa archwiliad cydraddoldeb tâl y Cynulliad, dywedodd Mr Gregory fod y Cynulliad wedi cynnal adolygiad cychwynnol a ddangosodd fod anghydraddoldebau yn system talu staff y Cynulliad. Byddai hyn yn cael ei weithredu fel blaenoriaeth gyda'r undebau yn y cylch presennol o drafodaethau tâl oedd i gael ei gynnal yr wythnos nesaf.

2.6 Gofynnodd y Cadeirydd am nodyn byr yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar y mater hwn ar gyfer y cyfarfod nesaf cyn y drafodaeth ar ddrafft terfynol adroddiad y Pwyllgor.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Cyflwyniad ar Waith Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru gan Susheela Lourie, Cadeirydd Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru a Steve Bennett, Rheolwr Project.**

3.1 Croesawodd y Cadeirydd Gadeirydd ac aelodau Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru (NWREN) a diolch iddynt am gytuno i roi cyflwyniad ar eu gwaith i'r Pwyllgor.

3.2 Canolbwyntiodd y cyd-gyflwyniad gan Susheela Lourie a Steve Bennett ar yr angen i ddatblygu'r 3 maes allweddol canlynol:

- Cyfathrebu gwell rhwng y De a'r Gogledd a mwy o adnoddau partneriaethau
- Gwell hyrwyddo ac ymwybyddiaeth o anghenion lleiafrifoedd du ac ethnig
- Gweithredu Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad).

3.3 Dywedodd NWREN eu bod wedi derbyn arian am flwyddyn gan y CRE ond eu bod hefyd wedi canolbwyntio ar gydweithredu a chymorth partneriaeth gan gyrff cyhoeddus wrth wneud ei waith a chyflawni ei amcanion. Dywedwyd bod y deunydd ar gyfer achlysur lansio cyhoeddus cyntaf y Rhwydwaith wedi'i gyhoeddi gyda chymorth ariannol yr Heddlu a dalodd y costau cyhoeddi llawn. Dywedwyd y cynhaliwyd achlysur rhwydwaith cyfle cyfartal yng Nghonwy y llynedd i sefydlu aelodaeth o bwyllgor i lunio adroddiad cyntaf a chynllun gwaith cychwynnol. Bu'r gynhadledd yn hynod o lwyddiannus ac fe'i mynychwyd gan tua 60 o bobl o drawstoriad eang o'r gymuned. Er bod Gogledd Cymru yn gweld agweddau yn newid yr oedd materion cydraddoldeb mawr i'w datrys o hyd a gwahaniaethau sylweddol rhwng materion cydraddoldeb hiliol yn y Gogledd o'i gymharu â'r rhai yn Ne Cymru. Ni chafodd y gwahaniaethau hyn eu cydnabod yn gyhoeddus bob amser. Y fantais a oedd gan Dde Cymru dros y Gogledd oedd eu hanes o leiafrifoedd a chymunedau du ac ethnig oedd i'w gweld yn amlwg. Yng Ngogledd Cymru nid oedd cymunedau o'r fath yn bodoli yn yr un ffordd; yr oedd lleiafrifoedd ethnig ar wasgar ac yn amrywiol a arweiniodd at arwahanrwydd gwledig. Nodwyd bod diffyg monitro ethnig, dim ystadegau dibynadwy, diffyg buddsoddi mewn hyfforddi staff a gwleidyddion a sawl enghraifft o hiliaeth sefydliadol. Yr oedd yr arfer o hysbysebu swyddi'n lleol yn golygu mai ychydig iawn o leiafrifoedd ethnig yr oeddent yn eu cyrraedd ac nad oedd cyrff cyhoeddus yn gosod targedau priodol i ymdrin â'r materion hyn yn gywir. Yr oedd y cyfleusterau cyfieithu ar gyfer lleiafrifoedd ethnig hefyd yn wael a rhoddwyd enghraifft o rywun yn mynychu llys heb y cyfleuster hanfodol hwn. Profiad y Rhwydwaith yn rhy aml oedd nad oedd cyrff cyhoeddus yn nodi eu methiant yn y meysydd hyn ac ar y mater o hiliaeth yn gyffredinol, y farn a roddwyd yn aml oedd "nid oes gennym broblem yma". Nodwyd bod achosion o fwlio hiliol mewn ysgolion, aflonyddu cyffredinol, ymosodiadau corfforol ar bobl, cartrefi a busnesau. Hefyd dangoswyd llun i'r Pwyllgor o graffiti bygythiol a adawyd heb fynd i'r afael ag ef.

3.4 Cofnodwyd bellach fod y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol yn cydnabod gwaith y Rhwydwaith, ei fod bellach yn cefnogi mentrau fel "yr hawl i bleidleisio" a phrojectau tai amrywiol. Byddai'r Rhwydwaith yn parhau i hwyluso contractau o'r fath i ddatblygu ymwybyddiaeth bellach drwy bartneriaethau gwell. Mae Deddf Cysylltiadau Hiliol 2000 (Diwygiad) yn rhoi dyletswydd ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i hybu cydraddoldeb hiliol. Mae hyn yn golygu y disgwylir i'r cyrff cyhoeddus hynny bellach ystyried y goblygiadau ar gyfer cydraddoldeb hiliol yn eu holl weithgareddau.

3.5 Nododd Dr Ally y bu'n fenter lwyddiannus a gododd ymwybyddiaeth a'r angen i hyfforddi staff yn briodol ond esboniodd y byddai angen gwneud llawer mwy o waith. Nododd hefyd y byddai'r Comisiwn yn parhau i ddarparu cymorth ble bynnag y gallai.

3.6 Yn y drafodaeth, cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod y boblogaeth lleiafrif ethnig amrywiaethol sydd wedi'i gwasgaru yng Ngogledd Cymru wedi arwain at arwahanrwydd gwledig a'r posibilrwydd o bobl yn teimlo'n ddiamddiffyn. Yr oedd hon yn broblem ychwanegol i awdurdodau lleol ac eraill yr oedd angen ei datrys ar frys. Ystyriwyd bod mwy o gyfathrebu a hyfforddiant gwell i greu'r lefel gywir o ymwybyddiaeth hefyd yn hanfodol.
- Ar y darlun o graffiti hiliol, ystyriodd yr aelodau ei bod yn hollol annerbyniol bod deunydd mor fygythiol wedi'i adael heb fynd i'r afael ag ef ar unwaith a thrwy hynny alluogi i bobl ychwanegu ato. Nododd aelod ei bod wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol ynghylch y graffiti a'i bod yn aros am ymateb.

3.7 Diolchodd y Cadeirydd i NWREN am eu cyflwyniad diddorol iawn a nododd mai'r ffordd i gael gafael ar arian a chymorth pellach yw nodi mwy o adnoddau partneriaeth. Dywedodd fod hiliaeth yn fater a ledaenir ledled Cymru gyfan a mynegodd bryder bod y Ffrynt Cenedlaethol yn recriwtio aelodau ar draws Cymru ac yn arbennig, yn agos at ei hetholaeth ei hun yn Abertawe. Esboniodd ei bod yn ddyletswydd ar y Cynulliad wneud popeth yn ei allu i drechu hiliaeth a byddai ethol lleiafrifoedd du neu ethnig i'r Cynulliad yn ffordd bwysig ymlaen tuag at gyflawni hyn.

**Eitem 4: Ymchwiliad Stephen Lawrence**

**Papur: EOC-04-01 (p.2)**

4.1 Trosglwyddodd y Cadeirydd yr awenau i Helen Mary Jones, Cadeirydd y gr•p llywio i esbonio canfyddiadau'r gr•p ac ystyried ei adroddiad diwygiedig gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson).

4.2 Esboniodd cadeirydd y gr•p llywio ei bod yn credu nad yw'n dderbyniol disgwyl i'r aelodau drafod y papur hwn ar gymaint o fyr rybudd. Cododd rai pwyntiau ar yr argymhellion penodol gan nodi bod hanfod cyffredinol yr hyn yr oedd y gr•p yn chwilio amdano wedi'i gynnwys yn yr adroddiad, yn cynnwys canllaw ACCAC a'r wybodaeth yn gyffredinol fyddai ar gael yn Gymraeg. Nododd hefyd o dan argymhelliad 68, bod y Pwyllgor o'r farn nad yn Gymraeg a Saesneg yn unig y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael ond hefyd mewn ieithoedd eraill. Mae'n bwysig iawn i rieni y gallai eu plant gael eu heffeithio, gael gwybodaeth ar sut mae eu hysgolion yn ymdrin ag achosion o hiliaeth yn eu mamiaith. Fodd bynnag, esboniodd nad yw'r adroddiad yn

adlewyrchu’n union fwriad y gr•p o ran cyhoeddi pob achos o hiliaeth mewn ysgolion ar sail ysgol wrth ysgol. Y rheswm dros hyn yw’r pryder y gallai system o’r fath difrïo ysgol. Gallai hefyd greu sefyllfaoedd lle gallai ymddangos bod gan ysgolion oedd yn dda am gofnodi achosion fwy o broblemau na’r rhai hynny oedd yn esgeulus wrth gofnodi achosion. Yn olaf, nododd cadeirydd y gr•p llywio y byddai angen i’r Pwyllgor gytuno ar gynllun gweithredu gydag amserlen.

4.3 Croesawodd Dr Alley yr adroddiad a nododd ei fod yn cynnwys yr holl gynhwysion y byddai’r Comisiwn am eu gweld i nodi’r cymunedau lleiafrifoedd ethnig amrywiaethol sy’n bodoli yng Nghymru. Amlygodd yr angen am well hyfforddiant i athrawon a chynllun gweithredu cryf ar gyfer cyflenwi gofynion penodol y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad).

4.4 Mewn trafodaeth, croesawodd yr Aelodau yr adroddiad ond teimlwyd yn gyffredinol er ei fod yn fater sensitif, eu bod am edrych ymhellach ar y mater o gofnodi a chyhoeddi achosion o hiliaeth. Derbyniwyd bod hwn yn fater anodd ac nad oeddent am ddifrïo ysgolion ond credai rhai aelodau y dylai gwybodaeth fod ar gael ar sail ysgol wrth ysgol. Awgrymwyd os byddai canllaw priodol yn bodoli ac os caiff achosion eu cofnodi’n briodol gyda rhywfaint o gysondeb, yna dylai’r wybodaeth hon fod ar gael ar gais gan mai dyma oedd yr unig ffordd o nodi ysgolion â phroblemau yn effeithiol.

4.5 Nododd Phillip Elkin (cyfreithiwr, SCC) bod cyhoeddi gwybodaeth yn codi materion o dan Ddeddf Diogelu Data 1988 gan na ddylid nodi unigolion byw. Gallai hyn fod yn broblem sylweddol i ysgolion heb lawer o ddisgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

4.6 Cytunwyd bod pwysigrwydd cofnodi a rhoi data o’r fath ar gael yn gorbwyso’r problemau. Nododd y Cadeirydd mai rôl y Pwyllgor oedd nodi’r hyn yr oedd am ei weld ac mai lle’r Gweinidog a’r SCC oedd ystyried sut y gellid cyflawni hyn yn effeithiol.

4.7 Diolchodd Jane Davidson (Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes) i’r Pwyllgor am gael y cyfle i’w annerch ac esboniodd bod gan addysg a dysgu gydol oes rôl bwysig i’w chwarae o ran cyfle cyfartal. Esboniodd mai’r unig reswm ei bod yn credu nad oedd yn briodol cael adolygiad o’r cwricwlwm nawr oedd oherwydd bod ganddo ddwy flynedd i redeg eto. Dywedodd y byddai canllaw ACCAC ar arfer dda yn y maes cyfle cyfartal yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir a nododd y byddai’r gwaith a wnaed ar gyfer yr adroddiad yn cyfrannu’n dda tuag at gwrdd â’r goblygiadau newydd o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad). Derbyniodd bod hyn oll yn golygu hyfforddiant pellach i athrawon ac esboniodd bod adolygiad o’r fenter hyfforddi TGCh hefyd yn cael ei gynnal. Cydnabu bod deunyddiau cyfrwng Cymraeg yn hanfodol a dywedodd ei bod yn cydweithio â’r BBC ar y mater hwn. Nododd yn ei barn hi, ei bod yn hollol hanfodol cofnodi achosion o hiliaeth os rydym am fynd i’r afael â’r broblem yn effeithiol a byddai’n fodlon edrych ar gyngor i rieni. Diolchodd i’r Pwyllgor am ei waith yn y maes hwn. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bryderus ynghylch canlyniadau cyhoeddi gwybodaeth ar achosion hiliol a sut y gellid defnyddio’r wybodaeth honno. Yr hyn yr ydym am ei weld yw cofnodi da, rheoli gwybodaeth da a chanllaw da i ysgolion. Nododd os byddai’r Pwyllgor yn fodlon dirprwyo’r rôl o ymchwilio beth fyddai’r ffordd orau o gyflawni hyn, y byddai’n fodlon gwneud hynny.

4.9 Ymgymerodd y Gweinidog dros Addysg i ddosbarthu datganiad i’r holl aelodau yn amlinellu ei chynlluniau i weithredu’r argymhellion ac i ddarparu amserlen weithredu i’r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. Gwnaeth y Pwyllgor gais bod yr amserlen hon hefyd yn nodi cyfrifoldebau.

4.10 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gytuno i'r adroddiad gael ei adolygu i argymell bod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, ynghyd â'r Comisiwn Cyfartaledd Hiliol, yn datblygu system i ysgolion gofnodi achosion o hiliaeth sy'n sicrhau bod ysgolion yn mynd i'r afael ag achosion o'r fath yn rhagweithiol. Yna caiff yr adroddiad diwygiedig hwn ei gyflwyno ar gyfer trafodaeth mewn Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor.

4.11 Diolchodd y Cadeirydd i Helen Mary Jones, y gr•p llywio a'r gweithgor o swyddogion am eu gwaith caled. Cytunodd y Pwyllgor y dylai Helen Mary gyflwyno'r ddadl ar yr adroddiad mewn Cyfarfod Llawn.

**Eitem 5: Cofnodion y cyfarfod blaenorol / Unrhyw Fater Arall**

**Papur: EOC-03-01**

5.1 Mewn ymateb i gwestiwn am Adroddiad McKenzie, dywedodd Mike Harper ei fod yn deall y byddai trafodaeth ar yr Adroddiad mewn Cyfarfod Llawn ar 17eg Gorffennaf.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor y dylid cael datganiad ar wahân mewn cyfarfod llawn, yn ogystal â dadl yn y pwyllgor ar adroddiad Mackenzie

5.3 Cododd Helen Mary Jones y cwestiwn o drefnu cyfarfodydd y Comisiwn Cyfle Cyfartal yn y dyfodol o ystyried y ffaith bod Richard Edwards yn cael anhawster mynychu oherwydd bod ei bwyllgor ei hun yn cwrdd ar yr un diwrnod ac y byddai'n drueni colli rhywun o'i brofiad ef.

5.4 Cytunodd y Cadeirydd i drafod hyn gyda'r Pwyllgor Busnes a gofynnodd i'r Ysgrifenyddiaeth wneud hynny hefyd ar lefel swyddogol.